

YDY DY DEULU DI'N NEWID?

Mae rhieni nifer o bobl ifanc yn gwahanu bob blwyddyn.
Os yw dy deulu di'n newid, GALLAI hwn dy helpu di...

Mae'n normal teimlo'n drist, wedi drysu neu'n grac os yw dy rieni'n gwahanu. Gallai siarad â rhywun am sut rwyd ti'n teimlo helpu'n fawr. Gall dy deulu, ffrindiau neu athro/athrawes dy helpu.



Dan Gofensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP), MAE GENNYT YR HAWL i wybodaeth a chefnogaeth i dy helpu, ac i ddweud beth yr hoffet i ddigwydd os yw dy rieni'n mynd i gyfryngwr neu'r llys.



Weithiau nid yw rhieni'n cytuno, a rhaid i'r oedolion wrando ar farn y plant, a'i gymryd o ddifri, wrth benderfynu ar y trefniadau ar eu cyfer.

CANOLFAN GYSWLLT
- CONTACT CENTRE -



Ni fydd rhieni bob tro'n mynd i'r llys ond os yw dy rieni'n di'n mynd, ni fydd angen i ti fynd. Bydd rhywun yn gofyn i ti beth rwyd ti eisiau ac yn dweud wrth y barnwr. Gelli hyd yn oed cael rhywun i siarad dy ran yn y llys os oes angen.

